## ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg: **02/02/2023**

2. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Nid oes cysylltiad uniongyrchol â strategaeth Cymraeg 2050. Nid oes modd mesur effaith Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ar y Gymraeg gan ei fod yn cynnwys casgliad o gynigion y mae angen camau gweithredu pellach arnynt i'w gweithredu, a bydd pob un ohonynt yn effeithio ar y Gymraeg mewn gwahanol ffyrdd. Bydd y Tîm Ansawdd Aer yn asesu sut y bydd polisïau unigol yn y Bil yn effeithio ar y Gymraeg drwy gydweithio â chydweithwyr sy'n gyfrifol am y Gymraeg drwy'r broses o weithredu'r Bil.

Byddwn yn sicrhau y bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu drwy weithredu'r ddyletswydd i godi ymwybyddiaeth yn ddwyieithog ac yn cael ei chreu yn unol â Safonau'r Gymraeg.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?

Nid oedd mwyafrif llethol yr ymatebion ysgrifenedig i'n hymgynghoriadau yn gallu nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg yn deillio o'n cynigion. Cynigiodd nifer o'r ymatebwyr safbwyntiau ehangach ar y potensial i'r cynigion gael budd anuniongyrchol ar yr iaith. Er enghraifft, drwy roi cyfle am fwy o ddwyieithrwydd ar becynnau cynhyrchion amgen a wneir yng Nghymru neu a gynhyrchir ar gyfer Cymru.

Ni wnaeth ymgynghoriadau cyhoeddus yn y cnawd ar ein cynigion a thrafodaethau gyda Senedd Ieuenctid Wrecsam wrth lunio'r Cynllun Aer Glân arwain at unrhyw ymgynghoreion yn amlinellu ffordd y gallai'r cynigion hyn niweidio'r Gymraeg. Ni fydd y cynigion yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith nac addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o unrhyw oedran.

Bydd gwybodaeth a gynhyrchir i gefnogi gweithredu'r ddyletswydd i godi ymwybyddiaeth, Rheoli ansawdd Aer Lleol a darpariaethau rheoli mwg a cherbydau'n segura yn ddwyieithog ac yn unol â Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran gwybodaeth i siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod cymunedau Cymraeg eu hiaith yn gallu cael mynediad at wybodaeth o ansawdd uchel am amodau ansawdd aer lleol, yn ogystal â ffynonellau llygredd aer, effeithiau a chamau lliniaru yn ehangach.

Gall gwella'r broses o wneud penderfyniadau ble bynnag y mae ganddi'r potensial i effeithio ar acwsteg mewn mannau dysgu a chysgu (ac unrhyw lefydd lle mae'r Gymraeg yn cael ei hymarfer gan ddysgwyr) leihau unrhyw effeithiau sŵn niweidiol ar ddysgu Cymraeg.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau sy'n deillio o'r Bil ar wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg; fodd bynnag, byddwn yn parhau i asesu effeithiau drwy weithredu'r Bil.